FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM
COFNODION DRAFFT

43fed cyfarfod y Fforwm a gynhaliwyd ym Mharc Gwledig Dyfroedd Alun, Gwersyllt ar Ddydd Gwener Tachwedd 11eg 2011.

01/11 PRESENOLDEB AC YMDDIHEURIADAU

Presennol:

YSGRIFENNYDD:
Caroline Selby (CS)

CADEIRYDD:
Mabyn Pickering (MP)

AELODAU:
Sue Gittins (SG)
Janet Williams (JW)
John Cooper-Poole (JCP)
Mike Crawshaw (MC)
Gerald Moss (GM)
Tim Stratton (TS)
Bill Stephens (BS)
Ken Mumford (KM)

POBL NAD YDYNT YN AELODAU:
Sean Hanratty (SH) CBSW
Sion Roberts (SR) CBSW
Martin Howarth (MH) CBSW
Dave Gittins (DG) Arsyllwr o Ogledd y Gororau (tan 3.30pm)

Ymddiheuriadau:

George Kinder
Edward Wardle
Gwynfor Jones

Estynnodd MP groeso i bawb i'r cyfarfod, yn enwedig Ken Mumford oedd yn aelod newydd. Ymddiheurodd nad oedd y cofnodion a'r agenda ar y wefan; y rheswm am hyn oedd bod yn rhaid aros iddynt gael eu cyfieithu. Roedd yr Uned Gyfieithu'n hynod o brysur a'u dyddiad dychwelyd fyddai Tachwedd 24ain.

Roedd JCP wedi datgan nad oedd yn dymuno ceisio aelodaeth unwaith eto felly dyma fyddai ei gyfarfod olaf. Cynigiodd helpu gydag ymholiadau yn ardal Yr Orsedd. Diolchodd MP iddo am ei gyfraniadau a'r gwaith a wnaeth tra'r oedd yn aelod o'r FfMLl yn Wrecsam.

02/11 COFNODION A MATERION YN CODI O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR FEDI 30AIN 2011:

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir.

- **Y Cynllun Datblygu Lleol**

- **Cerbydau 4x4 yng Nghefn Gwlad**

- **Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol**
  Yn aros am benderfyniad gan Lywodraeth Cymru.

- **Cynllun Glastir**
  Aeth yr A.C. lleol i gyfarfod yng Nglyn Ceiriog. Nid yw'r dyddiad wedi'i gadarnhau mewn perthynas â'r effaith ar berchnogion tir.

- **Ceidwaid Mynediad**
  Fferm Lower Singrett – mae SR yn edrych i mewn i hyn.
  Mae gan SG Fap Terfynol.

- **Ymddiriedolaeth Chwarel Minera**
  Roedd yr ymweliad â Chwarel Minera.
  Yn dilyn trafodaeth, dywedoddd JW bod modd mynd ar yr holl lwybrau cerdded.
  MP i wirio.

- **Ffurflenni Hawlio**
  Rhaid hawlio o fewn dau fis ar ôl cyfarfod. Bydd y ffurflenni'n cael eu dosbarthu'n electronig.

- **Diweddariadau**
  Bettisfield – yn aros i'r perchennog tir lofnodi'r Gorchymyn Creu.
  Gofynnwyd i SH roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau bob chwe wythnos gyda Gorchmynion i Addasu, Gwyriadau ac ati
  Cafodd y rhestr o Orchmynion i Addasu a Gwyriadau ei dosbarthu a'i nodi.

- **Y Diweddaraf am Gynllunio**
  Gall JW anfon gwybodaeth o ardal Bwlchgwyn a Minera yn y fwrdeistref sirol.

- **Mapiau Terrier**
  Gofynnodd JW a fyddai modd i'r hen reilffyrdd gael eu huwchraddio i'r categori Defnyddwyr Amrywiol. Byddai hyn yn dibynnu ar y perchnogion tir. Byddai'n rhaid ymgynghori â'r holl grwpiau mynediad. Ymdrinir â phob cais yn unigol.

- **Cyflwyniad**
  Y Map Categoreiddio Priffyrdd – darllennodd KM ddyfyniad o gyhoeddiad oedd yn datgan y bydd ffordd (priffordd), os nad yw wedi'i chynnwys ar Fap Terfynol erbyn 2016, yn cael ei dileu a'i cholli am byth.
  Cafwyd trafodaeth am briffyrdd, hawliau tramwy, cynnal a chadw, arwyddion, mynediad, ac ati.

  Mae dyletswydd yr FfMLl yn ymwneud â mynediad hamdden.

  Dylid edrych ar y darlun ehangach ac nid ar lwybrau unigol yn unig.

  Mae rhestr o strydoedd ar gael i'w gweld. Mae gan MH yr wybodaeth am gysylltu y bydd yn ei rhoi i'r aelodau sy'n cysylltu ag o.

  Roedd TS yn teimlo y dylai'r sylwadau a wnaeth KM ac eraill gael eu hadlewyrchu yn y Mesur Trafnidiaeth newydd i Gymru.

  Awgrymodd MH y gallai'r FfMLl newydd ofyn i gynrychiolydd o'r adran Briffyrdd fynd i'r cyfarfodydd nesaf am strydoedd. MH a CS i gysylltu â'i gilydd am hyn.

- **Râs Beiciau**
  Adroddwyd bod y bobl leol a'r beicwyr yn teimlo'n rhwystredig yn y digwyddiad hwn a'i fod wedi'i drefnu'n wael, o flaen llaw ac ar y diwrnod, oherwydd diffyg trefnu a marsialu gwael.

- **Yr estyniad arfaethedig i'r AHNE**
  Mae rhywfaint o amheuaeth am faint yr arian fydd ar gael mewn perthynas â grantiau ac ati.

Mae MP a TS wedi cyfarfod â chynllunwyr i drafod y mater yma. Mae swm yr arian sydd ar gael ar gyfer AHNE Clwyd gydag estyniadau yn aros yr un fath. Hefyd, efallai bod grantiau ar gael.

GWEITHREDU:

MP i wirio hygyrchedd y llwybrau yn Chwarel Minera.
CS i ddosbarthu ffurflenni hawlio'n electronig.
SH i ddosbarthu Gorchmynion i Addasu a Gwyriadau.
MH a CS i gysylltu â'i gilydd ynglŷn â chynrychiolydd Priffyrdd.

03/11 ADRODDIAD Y CADEIRYDD:

Rydw innau a Tim Stratton wedi siarad gyda'r adran Gynllunio, am y Cynllun Datblygu Lleol. Bydd TS, ac efallai finnau, yn mynd i'r Ymholiad ym mis Ionawr 2012.

Yn dilyn y cyflwyniad rhagorol ar Greadigaethau, Addasiadau a Gwyriadau, gan SH ym mis Medi, rwyf wedi gofyn iddo ddod â diweddariad o Orchmynion, ac ati, i bob cyfarfod FfMLl.

Mae'r broses gyfieithu'n cymryd amser ac mae'n anodd cael cyfieithiad o'r cofnodion cyn y cyfarfod dilynol yn aml iawn.

Byddwn yn annog pob aelod i gyflwyno ffurflenni hawlio treuliau. Gall CS roi'r rhain i'r aelodau.

MP i ysgrifennu at berchnogion 38 metr o reilffordd yn Legacy i ofyn a fyddai modd neilltuo'r tir yma ar gyfer Culffordd Gyfyngedig.

MP i archwilio perchnogaeth y tir a'r rheilffyrdd.

Cafwyd Fforwm Mynediad Lleol Cenedlaethol ar Ddydd Iau, Tachwedd 10fed 2011 yng Nghaerdydd.

Derbyniwyd rhai sylwadau ynglŷn â'r hysbysiad am y cyfarfod yma ar y wefan. Nodwyd y gellid rhoi Datganiad i'r Wasg yn y Wrexham Leader. CS a MH i gysylltu er mwyn trefnu hyn am fod datganiad yn cael ei baratoi am aelodaeth â'r FfMLl.

GWEITHREDU:

MH a CS am y Datganiad i'r Wasg.
MP i edrych ar berchnogaeth rheilffyrdd.
MP i ysgrifennu at berchnogion y rheilffordd.

04/11 ADRODDIAD YR YSGRIFENNYDD:

Rhoddodd yr ysgrifennydd adroddiad am y gwaith a wnaethpwyd.

Ers y cyfarfod diwethaf rwyf wedi dosbarthu dogfennau a gwybodaeth i aelodau FfMLl, yn cynnwys:

Llythyr a ffurflen gais i ddod yn aelod o'r FfMLl

Rwyf wedi cysylltu â Sustrans – D Glyn Hughes, rheolwr ardal gogledd a chanolbarth Cymru, sydd wedi'i seilio yn Rhuthun. Ni all roi cyflwyniad yn y cyfarfod yma ond mae'n gobeithio gwneud hynny yn y cyfarfod ym mis Chwefror.

Rwyf wedi cysylltu â CBSW ynglŷn â'r parcio yn Neuadd y Dref ar gyfer cyfarfodydd ac wedi derbyn yr ymateb yma, a ddaeth gan y Cydlynydd Parcio:

Pan osodwyd y rhwystr yn Neuadd y Dref, cytunwyd y gallai unrhyw ymwelwyr oedd yn dod i gyfarfod o'r Fforwm Mynediad Lleol (neu debyg) sy'n dal bathodynau glas, barcio eu ceir ym maes parcio Neuadd y Dref. Does dim darpariaeth arall ar gyfer parcio cyffredinol i ymwelwyr ym maes parcio Neuadd y Dref (tynnwyd y mannau parcio i ymwelwyr pan roddwyd y rhwystr yn ei le) felly ni allwn roi lle i unrhyw ymwelwyr eraill barcio eu cerbydau. Rwy'n gwerthfawrogi'r ffaith nad oes gan y maes parcio nifer o ddefnyddwyr efallai am 2pm ar brynhawniau Gwener ond, yn dechnegol, does dim mannau parcio i ymwelwyr gennym ac ni allwn ganiatáu i unrhyw un ddefnyddio Mannau Parcio Aelodau.

Derbyniwyd Tachwedd 10fed 2011

Rwyf wedi derbyn copïau o Orchmynion ar gyfer y dilynol:

- Gorchymyn Gwyro Llwybr Cyhoeddus 2011 (Llwybr Troed Cyhoeddus Rhif 36 yng Nghymuned Brychdyn) Bwrdeistref Sirol Wrecsam – cadarnhawyd ac ardystiwyd.
- Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus 2010 (Llwybr Troed Cyhoeddus Rhif 60 yng Nghymuned Brymbo) Bwrdeistref Sirol Wrecsam – cadarnhawyd ac ardystiwyd.
- Gorchymyn Creu 2011 (Llwybr Troed 7 Meadow Rise i Llai) Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – cadarnhawyd.
- Gorchymyn Gwyro Llwybr Troed Cyhoeddus 2010 (Llwybr Troed Cyhoeddus Rhif 39 yng Nghymuned Llansanffraid, Glyn Ceiriog) Bwrdeistref Sirol Wrecsam – cadarnhawyd gan Gynulliad Cymru.

Ymhle y dylid cadw'r dogfennau a gan bwy?

Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn cadw'r Gorchmynion.

SH i gysylltu â'r Adran Gyfreithiol i ofyn i bob cadarnhad yn y dyfodol gael eu hanfon yn electronig.

GWEITHREDU:
SH i gysylltu â'r Adran Gyfreithiol.

05/11 CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU:

MP i gysylltu ynglŷn â phresenoldeb mewn cyfarfodydd.

GWEITHREDU:
MP i gysylltu â CCW.

06/11 Y MESUR TRAFNIDIAETH NEWYDD I GYMRU:

Aeth TS i gyfarfod Cadeiryddion FfMLl ar Hydref 13eg yn Llanfair-ym-Muallt. Yr eitem fwyaf arwyddocaol oedd y Mesur Trafnidiaeth newydd oedd i ddod yn weithredol yn 2012.

Daw'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy i ben yn 2017 ac os nad yw hyn wedi'i gynnwys yn y Mesur Trafnidiaeth bydd yn dod i ben. Rhaid cynnwys unrhyw beth y mae eisiau ei barhau, megis y cynlluniau gwella hawliau tramwy, yn y Mesur Trafnidiaeth oherwydd dyma fydd yr unig gyfrwng ar gyfer gwneud hyn. Roedd TS yn teimlo y dylid gwneud cynrychiolaeth go iawn i'r FfMLl yn genedlaethol ynglŷn â'r hyn y dylid ei gynnwys yn y Mesur Trafnidiaeth.

Manteision y cynlluniau gwella hawliau tramwy yw bod targedau'n cael eu gosod sydd wedi gweithio, a bod nifer o ychwanegiadau i fapiau terfynol ac ati. Mae hyn yn rhoi ffocws i ddarparu gwell Hawliau Tramwy.

Rhoddodd y Cerddwyr gyflwyniad ar fanteision economaidd cerdded a dringo mynyddoedd.
Glastir – mae ymgynghoriad â FfMLl ac mae'r mater yma'n parhau.

Y Gyllideb Gwella Hawliau Tramwy - £1.1 miliwn ledled Cymru. Bydd £300,00 ychwanegol wedi'i ddosbarthu, pro rata, y flwyddyn ariannol hon.

Yn dilyn trafodaethau, gwnaed y cynigion a ganlyn:

> "Lobïo drwy Aelodau'r Cynulliad i gadw gofyniad am y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy fel endid ar wahân ar ôl 2017 ac i lobïo drwy Jean Rosenfeld i gadw'r grŵp Fforwm Mynediad Lleol fel y mae'n gweithio yn awr".

Cynigiwyd gan Sue Gittins Eiliwyd gan Bill Stephaney
Cytunwyd gan yr aelodau i gyd.

"Mae angen i hwn gael ei gynnwys yn y Mesurau Trafnidiaeth ac Amgylchedd mewn perthynas â chyllid".

Cynigiwyd gan Sue Gittins Eiliwyd gan Janet Williams
Cytunwyd gan yr aelodau i gyd.

Yr aelodau i dderbyn copi o'r llythyr y gellid wedyn ei addasu gan aelodau neu sefydliadau i'w anfon at Aelodau o'r Cynulliad a phobl briodol eraill.
Y gobaith yw y bydd y Mesur Amgylchedd newydd yn gwneud gwybodaeth yn fwy hygyrch.

Yn dilyn trafodaeth, cafwyd cynigiad pellach,

"Cynnwys esboniad o'r categorïau priffyrdd yn y Mesur Trafnidiaeth newydd".

Cynigiwyd gan Bill Stephens Eiliwyd gan Janet Williams
Cytunwyd gan yr aelodau i gyd.

GWEITHREDU:
Llythyrau i gael eu hanfon am y cynigion.

07/11 MARTIN HOWARTH RHEOLWR CEFN GWLAD A HAWLIAU TRAMWY, CBSW:

Diolchodd MH i aelodau'r FfMLl am eu holl waith a chyfraniadau yn ystod eu cyfnod yn eu swyddi, a fyddai'n gorffen ar ddiwedd y cyfarfod hwn.
Byddai FfMLl newydd yn cychwyn yn 2012, yn y cyfarfod ar Chwefror 3ydd.
Mae ffurflenni wedi'u dosbarthu, a rhai wedi'u dychwelyd. Y dyddiad cau ar gyfer y ffurflenni cais fydd Tachwedd 25ain 2011. Bydd MH a SH yn edrych ar y ffurflenni ac yn cysylltu ag ymgeiswyr. Bydd Datganiad i'r Wasg wedi'i gyhoeddi i annog aelodau newydd.
Fel y rhagnodwyd, bydd CS yn cadeirio cyfarfod cyntaf y FfMLl ac etholir cadeirydd ac is-gadeirydd newydd. Yna bydd y cadeirydd newydd yn cadeirio pob un o'r cyfarfodydd yn y dyfodol.,

Roedd MP yn annog pobl i gyflwyno ceisiadau am fod angen cael cynrychiolaeth mor eang ag sy'n bosibl ar FfMLl.

GWEITHREDU:
Ffurflenni cais i gael eu cwblhau a'u dychwelyd.
MH i osod Datganiad i'r Wasg
MH a SH i fwrw ymlaen â'r broses ymgeisio a chysylltu â'r ymgeiswyr
CS i gadeirio'r cyfarfod nesaf

08/11 CYFLWYNIAD GAN DAVE GITTINS, GOGLEDD GORORAU CYMRU:

DG yw Swyddog Prosiect Gogledd Gororau Cymru i'r Prosiect Amgylchedd Cefn Gwlad

Esboniodd DG rôl y Prosiect Amgylchedd Cefn Gwlad o ran y mynediad i'r amgylchedd naturiol a dosbarthodd daflen yn amlinellu hyn.

Bydd grantiau, hyd at £10,000, ar gael o Ionawr 2012, ar sail 80% - 20% (cyfateb arian).
Mae hyn ar gyfer ariannu cyfatebol yn unig ac mae pot cyfan o £50,000 ar gael.

Efallai bod cyllid tuag at gostau cynhyrchu llyfr o deithiau cerdded yn Wrecsam ar gael o ffynhonnell wahanol. Cynigiwyd y dylid,

> "Gofyn i Dave Gittins archwilio costau cynhyrchu llyfr o deithiau cerdded yn Wrecsam".

Cynigiwyd gan Sue Gittins Eiliwyd gan Gerald Moss
Cytunwyd gan yr holl aelodau.

Nodwyd na all FfMLl wneud cais am nad yw'n dal arian neu am nad oes ganddo gyfrif banc felly nid yw'n cwrdd â'r meini prawf ymgeisio.

GWEITHREDU:
DG i ymchwilio i'r cyllido.

09/11 ADRODDIAD Y CEIDWAD MYNEDIAD:

Mae taflenni ar gael yn dangos nifer o deithiau cerdded ond mae angen diweddaru rhai ohonynt. Mae angen gwirio ac ail asesu'r teithiau cerdded.

010/11 UNRHYW FATER ARALL:

a) Mapiau terfynol o Wrecsam - rhoddodd SG ei chopïau caled o'r mapiau i KM. Roedd MP wedi rhoi ei chopïau hi o'r mapiau i'r llyfrgell.

b) Gallai grwpiau â diddordeb arbennig gynhyrchu papurau ac yna eu dosbarthu mewn cyfarfodydd.

011/11 EITEMAU AR GYFER YR AGENDA/AGENDÂU NESAF:

- Fforddolion
- Grwpiau o Ddiddordeb Arbennig
- Y llyfr am deithiau cerdded yn Wrecsam
- Sustrans
- Cynrychiolydd y priffyrdd
- AHNE
- Sut mae FfMLl yn perthyn ac yn gweithio gyda strwythur CBSW, Llywodraeth Cymru, y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, FfMLl yn genedlaethol.

12/11 Y CYFARFOD NESAF:

Dydd Gwener, Chwefror 3ydd 2012, yn cychwyn am 2pm.
Y lleoliad fydd naill ai Tŷ Mawr neu Ddyfroedd Alun.